

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 22 Hydref 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

### Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

*Atebwyd y cwestiynau gan y Trefnydd ar ran Prif Weinidog Cymru.*

#### Cabinet y Cynulliad

**C13 William Graham:** A yw'r Prif Weinidog yn bwriadu ad-drefnu Cabinet y Cynulliad cyn mis Mai 2003? (OAQ19351)

**Y Trefnydd (Carwyn Jones):** Nid oes gan y Prif Weinidog unrhyw gynlluniau i ad-drefnu ei Gabinet cyn Mai 2003.

#### Cronfeydd Caledi i Fyfyrrwyr

**C14 Peter Black:** Pa gronfeydd ychwanegol ac eithrio grantiau dysgu'r cynulliad sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n dioddef caledi? (OAQ19349)

**Carwyn Jones:** Yn ychwanegol at grant dysgu'r Cynulliad, mae'r Cynulliad wedi darparu cyfanswm o £12 miliwn ar gyfer sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru yn 2002-2003, ar ffurf cronfeydd argyfwng ariannol (a elwid yn gronfeydd mynediad a chaledi yn y gorffennol). Bwriad y rhain, yn benodol, yw helpu myfyrwyr sydd â thrafferthion ariannol.

Ymhlith y mathau eraill o gymorth statudol cyffredinol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch, sy'n gyfrifoldeb Llywodraeth y DU, mae benthyciadau myfyrwyr, cymorth gyda ffioedd hyfforddi a benthyciadau caledi. Yn ychwanegol, caiff ffynonellau eraill o gymorth eu targedu ar gyfer grwpiau penodol o fyfyrwyr addysg uwch, er enghraifft lwfansau myfyrwyr anabl, grantiau gwarchod plant a grantiau dibynyddion.

Gall fod sawl ffynhonnell arall o gymorth dewisol ar gael i fyfyrwyr addysg uwch ac addysg bellach, er enghraifft, gwobrwyon dewisol gan awdurdodau addysg lleol, gwobrwyon gan ymddiriedolaethau addysg a grantiau gan elusennau.

#### Cyfathrebu â'r Etholwyr

**C15 Gareth Jones:** Sut y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu gwella'r cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r etholwyr? (OAQ19382)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol iawn o'r angen i hysbysu pobl Cymru am ei gwaith. Mae Gweinidogion yn ymweld yn rheolaidd â phob rhan o Gymru i drafod eu gwaith ac i wrando ar bryderon pobl. Cynhaliodd y Cabinet ei sesiwn holi gyhoeddus gyntaf yn Llandudno ym mis Gorffennaf, ac yr oedd gan Lywodraeth y Cynulliad bresenoldeb ym mhrif sioeau a gwyliau Cymru dros yr haf.